
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 No. 413

**Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a
Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016**

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p. 15)

179. Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (gofal cymdeithasol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

180. Hepgorer adran 49 (eithrio gofal nyrsio o wasanaethau gofal yn y gymuned).

181. Hepgorer adran 50 (hawliau a gadwyd: trosglwyddo cyfrifoldebau o ran llety i awdurdodau lleol).

182. Hepgorer adran 54 (preswlydd yn cyllido llety drutach).

183. Yn adran 55 (pŵer i awdurdodau lleol i gymryd pridiannau ar dir yn lle cyfraniadau)—

(a) ar ôl is-adran (2A)(1) mewnosoder—

“(2B) A local authority in Wales may not enter into, or be required by directions under subsection (2) to enter into, a deferred payment agreement on or after the day on which section 2 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 came into force.”;

(b) yn lle is-adran (7)(2) rhodder—

“(7) Any reference in this section to relevant contributions is a reference to—

(a) so much of the payments which the resident is liable to pay to an authority for Part 3 accommodation (including any payments which are additional payments for the purpose of section 54) as may be specified in, or determined in accordance with, regulations made for the purposes of this subsection; and

(b) any sum due to an authority by the resident under Part 1 of the Care Act 2014 or Part 5 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 in respect of meeting needs for care and support by the provision of accommodation for the resident, including anything provided in connection with that accommodation.”

184. Hepgorer adran 56 (lleoliadau trawsffiniol).

185. Yn adran 57(3) (taliadau uniongyrchol)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) yn lle “subsection (2) or (2A)” rhodder “subsection (2A)”;

(ii) hepgorer “(2) or (as the case may be)”;

(b) hepgorer is-adran (2);

(c) yn is-adran (2A), hepgorer “in England”;

(1) Mewnosodwyd adran 55(2A) gan baragraffau 62 a 64(1) a (2) o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(2) Amnewidiwyd adran 55(7) gan baragraffau 62 a 64(1) a (3) o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(3) Diwygiwyd adran 57 gan yr Atodlen i [O.S. 2015/914](#). Diwygiwyd adran 57(1) gan baragraffau 62 a 65(1), (2)(a) a (b); mewnosodwyd is-adrannau (2A) a (2B) gan baragraffau 62 a 65(1) a (4); diwygiwyd is-adran (3) gan baragraffau 62 a 65(1) a (6).

- (d) yn is-adran (2B), yn lle “subsection (2) or (2A)” rhodder “subsection (2A)”;
- (e) yn is-adran (3) ym mhob un o baragraffau (a) ac (g), yn lle “subsection (2) or (2A)” rhodder “subsection (2A)”;
- (f) hepgorer is-adran (7B).

186. Yn adran 59(1)(4) (diffiniadau)—

- (a) yn y diffiniad o “community care services” hepgorer paragraff (a);
- (b) yn y diffiniad o “local authority”—
 - (i) hepgorer paragraff (za);
 - (ii) ym mharagraff (a) yn lle “in relation to Wales, or, in sections 55 and 57, England or Wales, has the meaning given by section 46(3) of the 1990 Act” rhodder “does not, except in sections 55 and 57, include a local authority in England and, for the purposes of those sections in their application to local authorities in England, means a county council in England, a district council for an area in England which has no county council, a London borough council or the Common Council of the City of London”;
 - (iii) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—
 - “(aa) does not, except in section 55, include a local authority in Wales and, for the purpose of that section in its application to local authorities in Wales, means the council of a county or county borough in Wales;”.

(4) Yn adran 59(1), diwygiwyd y diffiniadau o “community care services” a “local authority” gan baragraffau 62 a 66(1), (2) a (3)(a) a (b) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).